

Darparu Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan mewn Datblygiadau Newydd **Canllaw i Ddatblygwyr Tachwedd 2018**



Pam bod angen Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan arnom yn y Ddinas?

Enwyd Caerdydd fel un o'r dinasoedd mwyaf llygredig yn y DU mewn adroddiad diweddar yn y Lancet ac mae gwella ansawdd yr aer ac iechyd yn lleol drwy leihau yr allyriadau ddaw o draffig ffyrdd yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Bydd darparu rhwydwaith hawdd ei gyrchu o bwyntiau gwefru cerbydau trydan yn chwarae rhan hollbwysig yn hwyluso mabwysiadu cerbydau trydan, sydd yn anghenraid er mwyn sicrhau ansawdd aer a gwelliannau iechyd.

Mae'r defnydd o gerbydau trydan yn fesur allweddol i leihau allyriadau yn lleol ac o ganlyniad mae darparu seilwaith gwefru i hwyluso ac ysgogi hyn yn hanfodol. Rhagwelir y bydd perchnogaeth ar gerbydau trydan yn cynyddu'n gyflym erbyn 2030 lle disgwylir i gyfanswm y cerbydau trydan yn y DU gyrraedd 13.6 miliwn a chymryd 60% o gyfran y farchnad gerbydau. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd anferth mewn lefelau perchnogaeth yn y ddinas o ddim ond 250 cerbyd trydan wedi eu cofrestru ar ddiwedd 2017 ac mae'n bwysig fod datblygwyr yn cydnabod ac yn ymateb i'r newid hwn.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu rhwydwaith gwefru cynhwysfawr gan gynyddu nifer y pwyntiau gwefru o amgylch y ddinas. **Mae'r ddogfen hon yn sefydlu disgwyliadau'r Cyngor ar gyfer darparu cyfleusterau gwefru trydan mewn datblygiadau newydd ar hyd a lled y ddinas** ac a gaiff eu defnyddio fel sail i drafodaeth a negodi gyda datblygwyr.

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli'r canllaw ULEV diweddaraf ac yn darparu gwybodaeth a chynghor i ddatblygwyr ar sut y gellir gwneud y gorau o gyfleoedd i ddefnyddio cerbydau trydan, yn enwedig drwy ddarparu pwyntiau gwefru mewn datblygiadau preswyl a masnachol newydd.



Beth yw manteision Darparu Pwyntiau Gwefru yn y Ddinas?

Tai a Fflatiau Preswyl

- Diwallu anghenion preswylwyr sy'n berchen ar gerbyd trydan,
- Gwneud yr eiddo yn fwy deniadol i ddarpar brynwyr a rhentwyr,
- Gwneud bod yn berchen ar gerbyd trydan yn ddichonadwy ar gyfer darpar brynwyr,
- Annog defnyddio cerbydau trydan yn yr ardal leol a helpu i wella ansawdd yr aer,
- Bydd pwynt gwefru neilltuol yn cynyddu cyflymder a diogelwch y cyfleuster gwefru,
- Gellir gosod pwynt gwefru yn y lleoliad mwyaf cyfleus posib i gerbyd,
- Bydd fflatiau yn gallu darparu ar gyfer gofynion gwefru preswylwyr, ymwelwyr a chwmnïau cynnal a chadw trydydd parti sy'n gwasanaethu'r fflatiau,
- Chwyddo eich enw da amgylcheddol corfforaethol.



Meysydd Parcio

- Gallu darparu ar gyfer y nifer cynyddol o gerbydau trydan,
- Helpu i sicrhau y ffefrir eich maes parcio chi gan yrwyr cerbydau trydan dros feysydd eraill,
- Yn creu cyrchfan mwy amgylcheddol gyfeillgar a gwella ansawdd yr aer,
- Annog defnyddio cerbydau trydan yn yr ardal leol,
- Helpu i hysbysebu eich maes parcio, drwy ddewis ei weld yn ymddangos ar fapiau ar-lein ac appiau sy'n hyrwyddo lleoliadau gwefru.



Adeiladau a Swyddfeydd Masnachol

- Arwain at leihad sylweddol mewn costau fflyd a threthi,
- Darparu ar gyfer ymwelwyr sy'n berchen ar gerbyd trydan,
- Gwneud bod yn berchen ar gerbyd trydan yn ddichonadwy i gyflogeion,
- Darparu gwefru ar gyfer eich cerbydau fflyd,
- Rhoi hwb i'ch enw da amgylcheddol corfforaethol,

Gwestyau a Thai Bwyta

- Diwallu anghenion cwsmeriaid sy'n berchen cerbyd trydan a denu mwy o fasnach achlysurol,
- Denu mwy o fusnes gan gwsmeriaid y tu allan i'r oriau gyda'r nos, e.e. yn ystod y dydd ar gyfer cyfarfodydd busnes a chiniawau,
- Helpu i hysbysebu eich busnes drwy ddewis ei weld yn ymddangos ar fapiau ar-lein ac appiau sy'n hyrwyddo lleoliadau gwefru,
- Cynnig rhywbeth gwahanol i'ch cystadleuwyr,
- Rhoi hwb i'ch enw da amgylcheddol.

Beth ddylid ei ddarparu?

Mae nifer o fathau gwahanol o bwyntiau gwefru cerbydau i ddewis ohonynt ac mae'n bwysig mai'r pwyntiau mwyaf addas sy'n cael eu gosod i ddiwallu anghenion meddianwyr y dyfodol a chwsmeriaid, staff neu ymwelwyr eraill â'r adeilad.

Bydd y Cyngor yn cefnogi cynigion sy'n ceisio cynnig cyfleoedd ar gyfer defnyddio cerbydau trydan. Er mwyn cynorthwyo, mae'r tabl canlynol yn rhoi man cychwyn o ran y lefelau darpariaeth y gellid eu cynnig trwy gyfrwng cynigion datblygu newydd.



Disgwyliadau Cyngor ar osod pwyntiau gwefru trydanol

Tai

Un pwynt gwefru cerbyd trydan wedi ei neilltuo (hyd at 7kW(32A) lle bo'n bosib) **neu osod gwifrau goddefol** i ganiatáu cyswllt pwynt gwefru i'r dyfodol fesul tŷ sydd â garej neu dramwyfa.

Fflatiau

Dylid sicrhau fod **o leiaf 10% o fannau parcio** wedi eu neilltuo â phwyntiau gwefru cerbyd trydan gwrth-dywydd.

Datblygiadau Masnachol, Meysydd Parcio a Chyfleusterau Cymunedol

Dylid sicrhau fod **o leiaf 10% o fannau parcio** wedi eu neilltuo â phwyntiau gwefru cerbyd trydan gwrth-dywydd.

Cyfleusterau Trafnidiaeth Gyhoeddus a Safleoedd Tacsis

Bydd gofyn cael seilwaith gwefru i hwyluso trosi fflydoedd bys a thacsis, **defnyddio datrysiadau technegol priodol mewn lleoliadau addas ar hyd a lled y ddinas.**

Diogelu i'r dyfodol

Yn amodol ar gytundeb â'r Awdurdod Cynllunio Lleol bydd darpariaeth safonol o bosib hefyd yn galw am **baratoi gwaith tir/gwefru goddefol o'r dechrau'n deg** i alluogi gosodiadau'r dyfodol i gael eu gwneud i ateb y galw.

Enghreifftiau o gyfraddau gwefru priodol:

Safleoedd Preswyl a Masnachol (Swyddfeydd, Gweithleoedd)

Ffeirir cyfradd pŵer o rhwng 3.7kW (16A) a 7.4kW(32A) i wefru cerbydau trydan pur. Mae gwefriad llawn ar fatri cerbyd trydan ar y math hwn o wefrydd fel rheol yn cymryd rhwng 4-8 awr.



Cyfleusterau Cymunedol (Ysgolion, Canolfannau Iechyd, Canolfannau Cymunedol, ayb), Siopau, Gwestyau a Thai Bwyta

Mae offer gwefru priodol ar gyfer cyrchfannau fel cyfleusterau cymunedol, siopau, gwestyau, tai bwyta ayb yn dibynnu ar hyd tebygol y cyfnod parcio ym mhob lleoliad. Mae'n bosib y byddai gwefryddion â lleiafswm o 3.7kW(16A) yn ddigonol mewn meysydd parcio arhosiad hir.



Parcio Trosiant Uchel

Lle bo'r parcio arfaethedig yn debygol o gynnwys cyfnodau cymharol fyr o ddefnydd trosiant uchel, megis maes parcio arhosiad byr neu archfarchnad, byddai'n briodol gosod pwyntiau gwefru cerbyd trydan 'cyflym' sydd â chyfradd gwefru sydd o leiaf yn 43kW/63A. Bydd y math hwn o wefrydd fel rheol yn cyrraedd gwefriad sy'n 80% o fatri cerbyd trydan 30kWh mewn 30-60 munud.

Sylwch: Bydd gofyn i gynllun gwefru cerbyd trydan a gyflwynir i gefnogi cais cynllunio hefyd gynnwys gwybodaeth sy'n nodi sut caiff yr offer gwefru ei reoli, e.e. pwy all ddefnyddio'r pwyntiau gwefru, mynediad a threfniadau taliadau, pwy fydd yn cynnal a chadw'r offer.



Ffynonellau Gwybodaeth Bellach

- Astudiaeth o Ddichonoldeb Gwefru Cerbyd Trydan Caerdydd, Arcadis, mis Mawrth 2018;
- Cod Ymddygiad Gosod Offer Gwefru Cerbydau Trydan IET; a
- Rheoliadau Gosod Gwifrau BS7671 IET



